Annwyl

Bob blwyddyn gofynnwn i bawb sydd wedi cwblhau cwrs yma yn ddiweddar gymryd rhan mewn arolwg i ddarganfod beth sy'n digwydd iddynt ar ôl iddynt adael y brifysgol/coleg. Roedd gennym ddiddordeb mewn unrhyw waith a/neu astudiaeth bellach roeddech yn ei wneud ar 13 Ionawr 2014. Nid ydym eto wedi clywed gennych chi.

Cliciwch ar y cyswllt hwn .........i gwblhau holiadur nawr ....( Byddwch angen rhif cyfeirnod myfyriwr, sydd ar ben yr e-bost hwn /............). Ni ddylai gymryd ond ychydig funudau i'w gwblhau - i'r mwyafrif o'r cwestiynau, dim ond rhoi tic mewn blwch sydd ei angen i ateb. Unwaith rydych wedi ei gwblhau, gwnewch yn si?r eich bod wedi cyflwyno eich holiadur wedi'i gwblhau drwy ddilyn y cyfarwyddiadau. Gallwch gwblhau'r holiadur ar-lein unrhyw bryd rhwng nawr a 8 Mawrth, ond cofiwch mai 13 Ionawr yw'r dyddiad sydd o ddiddordeb i ni er mwyn i ni allu cymharu gwybodaeth pawb.

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r holiadur, neu os hoffech gael y ffurflen mewn fformat arall, wnewch chi gysylltu â ni yn .......... os gwelwch yn dda.

Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion am sut mae'r arolwg yn gweithio a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a ddarparwch *isod/yn y ffeil sydd ynghlwm, drwy glicio ar y cyswllt hwn ....*

Er eich bod yn awr wedi cwblhau eich cwrs, mae'r *gwasanaethau gyrfaoedd* yn dal ar gael i'ch helpu gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â gyrfa. Os dymunwch gael unrhyw help gyda'ch cynlluniau gyrfa, cysylltwch â ni yn ......................................... os gwelwch yn dda.

Yn gywir ...

**Ynghylch yr arolwg**

Mae'r arolwg rydym yn gofyn i chi gymryd rhan ynddo yn arolwg cenedlaethol o bawb sydd wedi cymhwyso yn ddiweddar mewn unrhyw brifysgol neu goleg Addysg Uwch (AU) yn y DU. Bydd yr wybodaeth a rowch hefyd yn ddefnyddiol iawn i ni yn y *brifysgol/coleg* i gynghori ein myfyrwyr presennol am y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt.

O'r rhai a lwyddodd i ennill cymwysterau ledled y DU yn **2010/11**, fe wnaeth **78.8%** ymateb i'r arolwg. O'r rhain, dywedodd 64.4% eu bod yn gweithio a dywedodd 10.1% arall eu bod yn gweithio ac yn astudio. Roedd 13.7% yn astudio ymhellach yn unig. Tybiwyd fod 7.6% yn ddi-waith. Gellir gweld rhagor o ganlyniadau yn [www.hesa.ac.uk/sfr178](http://www.hesa.ac.uk/sfr178).

Os na fyddwn yn clywed gennych yn fuan byddwn yn cysylltu â chi eto, dros y ffôn, felly rhowch wybod i ni os byddwch yn newid eich cyfeiriad neu rif ffôn, os gwelwch yn dda. Os na allwn gysylltu â chi o gwbl, efallai y byddwn yn ceisio cael gwybodaeth am yr hyn roeddech yn ei wneud gan rywun arall, naill ai yn y *brifysgol/coleg* neu rywun y gallwn gysylltu ag ef/hi drwy ddefnyddio'r wybodaeth gysylltu rydych chi wedi'i rhoi i ni yn flaenorol. Os nad ydych eisiau i ni wneud hyn, neu os nad ydych eisiau rhoi unrhyw wybodaeth i ni, wnewch chi ddweud wrthym os gwelwch yn dda. Isod mae'r manylion am yr hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth ar ôl ei hanfon atom.

Bwriedir cynnal dilyniant i'r arolwg ymhen tair blynedd er mwyn i ni gael hyd yn oed mwy o wybodaeth am yrfaoedd cynnar y rhai sydd â chymwysterau AU. Efallai y gofynnir i chi gymryd rhan yn yr arolwg dilynol hwn hefyd, a fydd yn cael ei wneud gan sefydliad gwahanol. Gall yr arolwg hwn gael ei archwilio hefyd - hynny yw, ei wirio i sicrhau ei fod wedi'i wneud yn gywir. Os nad ydych eisiau

cymryd rhan yn yr arolwg dilynol, nac eisiau i unrhyw un gysylltu â chi yn ystod archwiliad, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda. Gallwch hefyd roi gwybod i ni os nad ydych eisiau cymryd rhan yn yr arolwg dilynol drwy dicio'r blwch ar ddiwedd yr holiadur.

**Beth sy'n digwydd i'ch gwybodaeth**

<Rhowch rybudd casglu eich sefydliad eich hun yma, os gwelwch yn dda, ac yna dilynwch hwn gyda rhybudd casglu yr HESA fel mae wedi'i osod isod>
---
Byddwn yn anfon gwybodaeth o'r ffurflen hon i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU/HESA). Bydd y data hyn yn cael eu cysylltu â gwybodaeth arall a gedwir amdanoch chi fel myfyriwr, gan gynnwys gwybodaeth gyffelyb a roddasoch wrth gofrestru, a manylion y cymwysterau a enillwyd gennych. **Ni fydd eich cofnod AYAU yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n effeithio arnoch yn bersonol.**

Defnyddir y Cofnod CMGAU AYAU at dri diben cyffredinol:

1. Swyddogaethau statudol

Defnyddir y cofnod AYAU gan y cyrff isod, neu asiantiaid sy'n gweithredu ar eu rhan, i gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus mewn perthynas ag addysg yn y DU.

- Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Llywodraeth yr Alban
- Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr
- Cyngor Cyllido Addysg Bellach ac Uwch yr Alban
  Y Cynghorau Ymchwil
- Yr Adran Addysg
- Yr Asiantaeth Addysgu
- Asiantaeth Ariannu Sgiliau
- Y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol

Gall y cofnod AYAU gael ei ddefnyddio hefyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â mesur lefelau poblogaeth a monitro gwariant cyhoeddus.

2. Cyhoeddiadau'r AYAU

Defnyddir y cofnod AYAU gan yr AYAU i gynhyrchu data di-enw mewn cyhoeddiadau ystadegol blynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys rhai cyhoeddiadau Ystadegau Cenedlaethol a gwasanaethau gwybodaeth rheoli ar-lein.

3. Ymchwil, cyfle cyfartal, newyddiaduraeth, diddordeb dilys/swyddogaeth gyhoeddus arall

Bydd yr AYAU hefyd yn cyflenwi data di-enw i drydydd partïon at y dibenion canlynol:

- Monitro cyfle cyfartal - Gall eich cofnod AYAU gynnwys manylion eich grŵp ethnig ac unrhyw anableddau sydd gennych. Ni ddefnyddir y data hyn ac eithrio lle y mae eu hangen i hybu neu gynnal cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal ar gyfer pobl o wahanol darddiadau hiliol neu ethnig, â gwahanol gredoau crefyddol, neu â gwahanol gyflyrau corfforol neu feddyliol.
- Ymchwil. Gall hwn fod yn ymchwil academaidd, ymchwil masnachol neu ymchwil ystadegol arall i addysg uwch lle y mae hyn o fudd i'r cyhoedd.
- Newyddiaduraeth, lle y byddai'r cyhoeddiad dan sylw er budd y cyhoedd e.e. tablau cynghrair.

Caiff data di-enw at y dibenion uchod eu cyflenwi gan yr AYAU i'r mathau canlynol o ddefnyddiwr:

- Cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg uwch
- Cyrff yn y sector addysg uwch
- Sefydliadau addysg uwch
- Ymchwilwyr a myfyrwyr academaidd
- Cyrff masnachol (e.e. cwmnïau recriwtio, darparwyr tai, cyflogwyr graddedigion)
- Undebau
- Cyrff anllywodraethol ac elusennau
- Newyddiadurwyr

Bydd yr AYAU yn cymryd camau i sicrhau nad oes modd adnabod unigolion o'r data di-enw a brosesir ganddi.

Eich hawliau

O dan Ddeddf Gwarchod Data 1998, mae gennych hawl i weld y data a gedwir amdanoch gan yr AYAU. Rhaid i chi dalu ffi fach am hyn. I gael gwybodaeth bellach am y cofnod AYAU, ewch i www.hesa.ac.uk/dataprot